# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(29)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Dadl ar y Gyllideb Ddrafft (120 munud)**

**NDM4847 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-2013 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty ar 4 Hydref 2011.

**Dogfennau Ategol**
Mae'r Cynigion yngylch Cyllideb Ddrafft 2012-13 ar gael drwy'r ddolen ganlynol:
http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=222236&ds=11/2011

Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid - Craffu ar gynnig cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013

Papur y Gwasanaeth Ymchwil ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft 2012-13

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**William Graham (Dwyrain De Cymru)**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gwrthod cefnogi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2011 gan y Gweinidog Cyllid, ar y sail nad yw’n mynd i’r afael yn ddigonol â'r canlynol:

a) y pwysau ariannol y mae’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ei wynebu;

b) yr argyfwng economaidd sy’n gwaethygu;

c) y pwysau ariannol y mae ysgolion yn ei wynebu er mwyn diwallu anghenion plant difreintiedig; a

d) y pwysau ariannol ar brosiectau cyfalaf.

**Yn unol â rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Llywodraeth y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.**

**4. Dadl ar y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (60 munud)**

**NDM4848 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod mai'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a bennwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yw'r sylfaen o hyd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

2. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, gan gynnwys y trefniadau arwain newydd a roddwyd ar waith.

**Dogfen Ategol**
Mae'r ddogfen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu ar gael drwy'r ddolen ganlynol:
http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu ‘mai'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a bennwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yw'r sylfaen o hyd’ a rhoi

yn ei le ‘bod gan yr egwyddorion a'r blaenoriaethau a bennwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu y potensial’.

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol ac atebol a bod hyn yn hollbwysig er mwyn gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth gynigion Llywodraeth Cymru i dorri 5.9 y cant oddi ar Gyllideb Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol mewn termau real rhwng 2011/12 a 2012/13.

**Gwelliant 4 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu’r polisi i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi’r Fframwaith hwn fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

**Gwelliant 5 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y bydd newidiadau demograffig yn y dyfodol yn rhoi rhagor o bwysau ar wasanaethau cymdeithasol, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i feithrin cysylltiadau gweithio agosach rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd lleol.

**Gwelliant 6 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd a wneir o gyllidebau personol ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal er mwyn iddynt dderbyn rhaglen ofal sy'n addas i angen personol.

**Yn unol â rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Llywodraeth y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.**

**Crynodeb o Bleidleisiau**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2011